| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol ac Addasiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn addasu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 drwy ychwanegu dosbarth datblygu newydd, sef sefydliadau preswyl diogel. Mae hefyd yn gwneud newidiadau eraill i'r Gorchymyn mewn perthynas â llysoedd barn, ac yn addasu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu a Ganiateir) 1995. Fe'i gwnaed gan ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar 23 Mai a daeth i rym ar 7 Mehefin 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Tynnwyd sylw'r cyfreithwyr a ddrafftiodd y Gorchymyn at ddau wall teipograffyddol sy'n addas i'w cywiro wrth ei gyhoeddi.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y mae ar hyn o bryd, a bydd yn

parhau i fod yn gymwys i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd angen deddfwriaeth ddiwygio os yw am fod yn gymwys i'r Cynulliad Genedlaethol ar ôl y gwahanu.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 27 Mehefin 2006